

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 12 (Tal-y-bont) i
Gyffordd 13 (Abergwyngregyn),
Gwynedd) (Cyfyngiad a
Gwaharddiadau Traffig Dros Dro)
2021

The A55 Trunk Road (Junction 12
(Tal-y-bont) to Junction 13
(Abergwyngregyn), Gwynedd)
(Temporary Traffic Restriction &
Prohibitions) Order 2021

Gwnaed 24 Mawrth 2021

Made 24 March 2021

Yn dod i rym 27 Mawrth 2021

Coming into force 27 March 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 12 (Tal-y-bont) i Gyffordd 13 (Abergwyngregyn), Gwynedd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Mawrth 2021.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 12 (Tal-y-bont) to Junction 13 (Abergwyngregyn), Gwynedd) (Temporary Traffic Restriction & Prohibitions) Order 2021 and this Order comes into force on 27 March 2021.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weiniogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 27 Mawrth 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad a Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd drwy'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 3 yn weithredol.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 20:00 hours on 27 March 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Restriction and Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed through the gaps in the central reservation of the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

5. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order during such times as the restriction referred to in article 3 is in operation.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

Cymhwyso

6.—(1) Ni fydd y cyfyngiad a'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Mawrth 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Application

6.—(1) The restriction and prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspension

7. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Duration of this Order

8. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

24 March 2021

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiwedd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at ganolbwynt Cyffordd 13 (Abergwyngregyn).

ATODLEN 2

Cau Bylchau'r Llain Ganol

Y darn o gerbyffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.6 cilometr i'r gorllewin o Gyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at ganolbwynt Cyffordd 13 (Abergwyngregyn).

Y darn o gerbyffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.6 cilometr i'r dwyrain o Gyffordd 13 (Abergwyngregyn) hyd at ganolbwynt Cyffordd 12 (Tal-y-bont).

SCHEDULE 1

Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from the centre of Junction 12 (Tal-y-bont) to the centre of Junction 13 (Abergwyngregyn).

SCHEDULE 2

Closure of Central Reservation Gaps

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.6 kilometres west of Junction 12 (Tal-y-bont) to the centre of Junction 13 (Abergwyngregyn).

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.6 kilometres east of Junction 13 (Abergwyngregyn) to the centre of Junction 12 (Tal-y-bont).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CYFFORDD 12 (TAL-Y-BONT) I GYFFORDD
13 (ABERGWYNGREGYN), GWYNEDD)
(CYFYNGIAD A GWAHARDDIADAU TRAFFIG
DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 12 (Tal-y-bont) a Chyffordd 13 (Abergwyngregyn), Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. gosod terfyn cyflymder 10 mya ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder hwn yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn;
- ii. gwahardd traffig rhag symud drwy'r bylchau yn llain ganol y darnau o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 27 Mawrth 2021. Disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiadau dros dro yn dod i rym ar y dyddiad hwnnw a byddant yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) tan 31 Mawrth 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 12 (TAL-Y-BONT) TO JUNCTION 13
(ABERGWYNGREGYN), GWYNEDD)
(TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTION &
PROHIBITIONS) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 12 (Tal-y-bont) and Junction 13 (Abergwyngregyn), Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily:


- i. impose a 10 mph speed limit on the length of the A55 trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. This speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times;
- ii. prohibit the movement of traffic through the gaps in the central reservation of the lengths of the A55 trunk road specified in Schedule 2 to this Notice.

The Order comes into force on 27 March 2021. The temporary restriction and prohibitions are expected to come into force on that date and will operate overnight (20:00 – 06:00 hours) until 31 March 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim
Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at ganolbwynt Cyffordd 13 (Abergwyngregyn).

ATODLEN 2
Cau Bylchau'r Llain Ganol

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.6 cilometr i'r gorllewin o Gyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at ganolbwynt Cyffordd 13 (Abergwyngregyn).

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.6 cilometr i'r dwyrain o Gyffordd 13 (Abergwyngregyn) hyd at ganolbwynt Cyffordd 12 (Tal-y-bont).

SCHEDULE 1
Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from the centre of Junction 12 (Tal-y-bont) to the centre of Junction 13 (Abergwyngregyn).

SCHEDULE 2
Closure of Central Reservation Gaps

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.6 kilometres west of Junction 12 (Tal-y-bont) to the centre of Junction 13 (Abergwyngregyn).

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.6 kilometres east of Junction 13 (Abergwyngregyn) to the centre of Junction 12 (Tal-y-bont).